# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 9 Ionawr 2018

Amser y cyfarfod: 13.30

## 109(v5)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan y Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant: Ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth i gael Gwared ar yr Amddiffyniad Cosb Resymol

(45 munud)

## 4 Datganiad gan y Cwnsler Cyffredinol: Cod Erlyn Llywodraeth Cymru

(45 munud)

## 5 Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018

(15 munud)

**NDM6618** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Tachwedd 2017.

**Dogfen ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 6 Dadl: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni

(60 munud)

**NDM6617** Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi cyhoeddi Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni.

Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu:

a) bod gwerth nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir fesul pen o'r boblogaeth (Gwerth Ychwanegol Gros) yn is-ranbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dal i fod ar y gwaelod ledled y DU, ar ddim ond 64 y cant o gyfartaledd y DU - gyda Chymoedd Gwent yn ail yn unig i Ynys Môn fel yr isaf yn y DU;

b) bod adroddiad Sefydliad Bevan "Tough Times Ahead? What 2018 might hold for Wales", yn nodi er y rhagwelir y bydd diweithdra yn y DU yn aros yn tua 4.3 y cant dros y flwyddyn, bod perfformiad yn annhebygol o fod yn ddigon i hybu'r rhannau

hynny o Gymru lle mae diweithdra yn uwch o lawer na ffigur y DU, megis Merthyr Tudful (7.3 y cant) a Blaenau Gwent (6.7 y cant);

c) y gohiriwyd cyflwyno rhaglen gyflogadwyedd newydd Cymru'n Gweithio Llywodraeth Cymru tan fis Ebrill 2019.

Sefydliad Bevan - "Tough Times Ahead? What 2018 might hold for Wales (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i amlinellu sut y bydd yn siarad ynghylch, ymgynghori ar, dylunio a chyflwyno 'Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni' â phobl sy'n byw a gweithio yng nghymoedd de Cymru; Llywodraeth y DU; y sector busnes a'r trydydd sector, wrth i waith y tasglu fynd yn ei flaen.

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi er mwyn cael ymgysylltiad gwirioneddol â mudiad "Creu Sbarc", i greu busnesau mwy proffidiol o Gymru sy'n sicrhau cyfoeth a ffyniant ar gyfer Cymru gyfan, y bydd angen cydweithrediad Llywodraeth Cymru gyda diwylliant sy'n cysylltu arloesi ac entrepreneuriaeth gyda'i gilydd.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen am fuddsoddiad strategol ym mhob rhan o Gymoedd De Cymru, gan gynnwys y Cymoedd gorllewinol.

Yn credu mai dim ond gyda lefel ddigonol o gyllid y caiff y Cynllun Cyflawni ei gyflawni'n llawn.

Yn credu y bydd angen corff cyflenwi trosfwaol i fonitro, hyrwyddo a gweithredu'r Cynllun Cyflawni.

## 7 Dadl: Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru

(60 munud)

NDM6616 Julie James (Gorllewin Abertawe)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r ymgynghoriad ar fersiwn ddrafft Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (WNMP).

2. Yn cydnabod ac yn cefnogi posibilrwydd 'Twf Glas' cynaliadwy mewn sectorau morol fel y nodir yn y cynllun drafft.

3. Yn cydnabod, fel y nodir yn y cynllun drafft, bwysigrwydd ecosystemau morol Cymru a phwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol morol yn gynaliadwy o safbwynt llesiant cenedlaethol.

4. Yn croesawu ymrwymiad parhaus Llywodraeth Cymru i ymgysylltu a chydweithio wrth ddatblygu a gweithredu cynllunio morol i Gymru.

Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwyntiau newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu buddsoddiad yr UE mewn ynni morol yn Sir Benfro ac Ynys Môn ac yn galw am fuddsoddiad cydlyniad rhanbarthol tebyg gan Lywodraeth y DU yn dilyn Brexit.

Yn gresynu at yr oedi wrth ddatblygu prosiect Morlyn Llanw Bae Abertawe fel prosiect braenaru a fyddai'n ein galluogi i ddysgu llawer iawn am botensial twf glas o ynni llanw.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu at yr oedi o ran cyhoeddi cynllun morol terfynol Llywodraeth Cymru yng nghyd-destun yr her i foroedd Cymru yn dilyn y penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd.

*[Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ym mhwynt 4, dileu popeth ar ôl "chydweithio" a mewnosod:

"ond yn gresynu at yr oedi wrth lunio Cynllun Morol Cenedlaethol Drafft Cymru."

**Gwelliant 4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o flaenoriaeth i economi ac amgylchedd morol Cymru yn y dyfodol.

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno ardoll ar blastig untro tafladwy i helpu i sicrhau bod moroedd Cymru'n lân, yn iach, yn ddiogel, yn gynhyrchiol ac yn fiolegol amrywiol.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 10 Ionawr 2018

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 04/01/2018 i'w hateb ar 09/01/2018

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

## Prif Weinidog

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

1 OAQ51514

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ymdrechion i ailgylchu plastig yng Nghymru?

**Nick Ramsay** *Mynwy*

2 OAQ51496

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi mentrau yn ne-ddwyrain Cymru?

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

3 OAQ51508

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd yng Ngorllewin De Cymru?

**Jane Hutt** *Bro Morgannwg*

4 OAQ51524

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau Llywodraeth Cymru i nodi canmlwyddiant y bleidlais i fenywod?

**Julie Morgan** *Gogledd Caerdydd*

5 OAQ51528

Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o effaith penderfyniad China i wahardd mewnforion plastig ar Gymru?

**David Rees** *Aberafan*

6 OAQ51509

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Aberafan yn 2018?

**Bethan Jenkins** *Gorllewin De Cymru*

7 OAQ51527

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisïau Llywodraeth Cymru i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

8 OAQ51530

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am adeiladu tai awdurdodau lleol yng Nghymru?

**Suzy Davies** *Gorllewin De Cymru*

9 OAQ51526

A wnaiff y Prif Weinidog esbonio pam roedd angen i Lywodraeth Cymru ail-drafod ei threfniadau â Stiwdios Pinewood?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

**10** OAQ51501

A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r prosesau statudol y mae'n rhaid eu dilyn pan fo sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus yn destun camau goruchwylio Llywodraeth Cymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

**11** OAQ51521 Wedi'i gyflwyno yn Gymraeg

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch dyfodol adeilad Llywodraeth Cymru yng Nghaernarfon?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

**12** OAQ51532

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cymunedau lleol yn Islwyn drwy brosiectau buddsoddi cyfalaf?

**Simon Thomas** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

**13** OAQ51533

Pryd oedd y tro diwethaf y cyrhaeddwyd y targed o 95 y cant o gleifion yn aros llai na pedair awr cyn cael eu gweld mewn uned damweiniau ac achosion brys yn ardal bwrdd iechyd Hywel Dda?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

**14** OAQ51506

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysau'r gaeaf yn y GIG yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

**15** OAQ51525

Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â llygredd aer yng Nghaerdydd?

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 16 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (45 munud)
- Dadl: Cyllideb Derfynol 2018-19 (60 munud)
- Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2018 (15 munud)
- Dadl ar y Setliad Llywodraeth Leol 2018-19 (60 munud)

**Dydd Mercher 17 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar Glystyrau Gofal Sylfaenol (60 munud)
- Dadl Fer - Lee Waters (Llanelli) (30 munud)

**Dydd Mawrth 23 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Cynnydd ar y Gronfa Triniaeth Newydd (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Trafnidiaeth Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod (45 munud)
- Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018 (15 munud)
- Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Amrywiol) 2018 (15 munud)
- Dadl: Adolygiad Thurley o Amgueddfa Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 24 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid (45 munud)
- Cwestiynau i Arweinydd y Tŷ (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)

- Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i'r amcangyfrifon ariannol sy'n cyd-fynd â deddfwriaeth (60 munud)
- Dadl ar adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Bargeinion Dinesig ac Economïau Rhanbarthol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Siân Gwenllian (Arfon) (30 munud)

**Dydd Mawrth 30 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Arweinydd y Tŷ: Cyflymu Cymru (45 munud)
- Cynnig i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)
  - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2018
  - Rheoliadau Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (Diwygio Atodlen 5) 2018
- Cynnig i drafod y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (45 munud)
  - Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018
  - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018
  - Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Swm Penodedig o Rent Perthnasol) (Cymru) 2018

**Dydd Mercher 31 Ionawr 2018**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau ar Fynediad at Drafnidiaeth Gyhoeddus ar gyfer Pobl Anabl (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ei ymchwiliad i Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru (60 munud)
- Dadl Fer – Suzy Davies (Gorllewin De Cymru) (30 munud)